COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI A GYNHALIWYD YN O BELL TRWY DIMAU MICROSOFT DYDD IAU, 15 EBRILL 2021, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd G Thomas – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| SE Baldwin | JPD Blundell | RJ Collins | SK Dendy |
| DK Edwards | RM Granville | MJ Kearn | DRW Lewis |
| JE Lewis | JC Radcliffe | JC Spanswick | MC Voisey |
| KJ Watts | CA Webster | AJ Williams | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

A Hussain a/ac RME Stirman

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rhodri Davies | Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu |
| Craig Flower | Arweinydd Tim Cymorth Thechnegol |
| Rod Jones | Uwch Cyfreithiwr |
| Robert Morgan | Uwch Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Alexandra Richards | Uwch Swyddog Cynllunio |
| Leigh Tuck | Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth |

468. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd A Williams fuddiant rhagfarnus yn eitem 8, P/21/101/FUL ar yr Agenda ac arferodd ei hawl i siarad ar y cais am 3 munud, cyn gadael y cyfarfod tra bod yr eitem yn cael ei hystyried. Dychwelodd y Cynghorydd Williams i'r cyfarfod ar ôl i'r cais gael ei benderfynu.

469. CADARNHAU COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu dyddiedig 4 Mawrth 2021, yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

470. SIARADWYR CYHOEDDUS

Nid oedd siaradwyr cyhoeddus yn y cyfarfod heddiw.

471. TAFLEN DDIWYGIADAU

PENDERFYNWYD: Bod y Cadeirydd wedi derbyn taflen ddiwygiadau’r Pwyllgor Rheoli Datblygu fel eitem frys yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) o Reolau Gweithdrefn y Cyngor, er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried addasiadau angenrheidiol i adroddiad y Pwyllgor, a hynny er mwyn ystyried y sylwadau a'r diwygiadau hwyr y mae'n ofynnol eu bodloni.

Dywedodd Rheolwr y Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu, mewn perthynas ag eitem 8 ar yr Agenda heddiw, fod aelodau wedi cael llythyr gan yr ymgeisydd, yn codi

rhai materion mewn perthynas â'r cais. Pwysleisiodd fod y rhain yn Pwysleisiodd, fodd bynnag, fod adroddiad y Swyddog wedi mynd i'r afael â'r materion hyn i gyd.

Cadarnhaodd y Cynghorydd S Baldwin nad oedd wedi derbyn y llythyr hwn gan yr ymgeisydd.

472. CANLLAWIAU'R PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU

PENDERFYNWYD: Bod crynodeb o ganllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu, fel y'i nodir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau, yn cael ei nodi.

473. P/20/898/RLX - ALDI UNED 1, LLYNFI WALK, FFORDD LLYNFI, MAESTEG CF34 9DS

PENDERFYNWYD: Bod y cais uchod yn cael ei wrthod, am y rheswm canlynol:-

Rheswm:

Byddai'r bwriad i lacio'r oriau gweithredu am gyfnod dros dro o 6 mis i ganiatáu danfoniadau o 6am yn y bore (Llun-Sad) yn cael effaith andwyol ar amwynderau preswyl meddianwyr preswyl cyfagos drwy lygredd sŵn yn ystod oriau gwrthgymdeithasol yn groes i Bolisi SP2 Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2013 a chyngor ym Maes Polisi Cynllunio Cymru 11 (Chwefror 2021).

Cynnig

Amrywio cyflwr 1 P/14/65/RLX i ganiatáu i'r storfa ddadlwytho danfoniadau am gyfnod hirach.

474. P/21/101/FUL - UNED 2 GARTH DRIVE, YSTÂD DDIWYDIANNOL BRACLA, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 2AQ

PENDERFYNWYD: Bod aelodau o blaid cymeradwyo'r cais uchod a fydd yn cael ei ohirio tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor Rheoli Datblygu, pan fydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau ar unrhyw Amodau y dylid eu hatodi i roi caniatâd cynllunio ar gyfer y cais hwn.

Cynnig

Newid defnydd swyddfa nas defnyddir ar hyn o bryd i fod yn salon gwallt.

475. P/20/423/RLX - FFERM WYNT NEWTON DOWN, STORMY LANE, PORTHCAWL

PENDERFYNWYD: Bod y cais uchod yn cael ei ganiatáu, yn ddarostyngedig i'r Amodau a geir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau.

Cynnig

Amrywio amod 2 y penderfyniad apêl ar gyfer P/12/368/FUL i ymestyn y caniatâd o 25 mlynedd i 40 mlynedd.

476. APELIADAU

PENDERFYNWYD:

1. Bod yr Apeliadau a dderbyniwyd ers y cyfarfod Pwyllgor diwethaf, fel y'u rhestrir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau, yn cael eu nodi.

2. Dylid nodi'r Penderfyniadau Apeliadau canlynol, fel y'u nodir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, a benderfynwyd gan yr Arolygwr/wyr a benodwyd gan Weinidogion Cymru ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor:-

a) Rhif Cod**.** H/20/3265107 (1912) – Pwnc Apêl **-** Sgrin gylchdroi ddigidol i ddangos hysbysebion lluosog
wedi'i lleoli ar ochr 91 Stryd Nolton, Pen-y-bont ar Ogwr – **Gwrthodwyd yr Apêl** (gweler Atodiad A i'r adroddiad)
b) Rhif Cod D/21/3268724 (1913) – Pwnc Apêl - estyniadau blaen a chefn, tynnu to wedi'i osod a'i ailosod â llety ail lawr â tho gwastad yn ei le: Woodcliffe, Rhych Avenue, Porthcawl – **Gwrthodwyd yr Apêl** (gweler Atodiad B i'r adroddiad).

477. COFNOD HYFFORDDIANT

Cyflwynwyd adroddiad gan Reolwr y Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu, yn cynnwys eitemau a oedd yn cynnwys Rhaglen Hyfforddi i Aelodau yn y dyfodol.

O ran yr eitem ar y Rheoliadau Diogelwch Tân, dywedodd wrth y Pwyllgor y byddai hyn yn cael ei ohirio tan ddyddiad diweddarach ac, yn ei le, byddai sesiwn hyfforddi ar y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn cael ei threfnu ar 26 Mai 2021, y byddai holl Aelodau'r Fwrdeistref Sirol yn cael gwahoddiad iddo.

PENDERFYNWYD: Bod yr adroddiad yn cael ei nodi, yn amodol ar y diweddariad uchod.

478. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:15